

Ymateb y Cyngor Meddygol Cyffredinol i ymgyngoriad Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rheoleiddwyr Gofal Iechyd)

Diolch am roi'r cyfle i ni ymateb i'r Ymgynghoriad ar Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn helpu i ddiogelu cleifion a gwella addysg ac ymarfer meddygol ledled y DU:

- Rydym yn penderfynu pa feddygon sy'n gymwys i weithio yma ac rydym yn arolygu addysg a hyfforddiant meddygol y DU.
- Rydym yn gosod y safonau mae angen i feddygon eu dilyn, a sicrhau eu bod yn parhau i ateb y safonau hynny trwy gydol eu gyrfaedd.
- Rydym yn gweithredu i atal meddygon rhag peryglu digelwch cleifion, neu hyder y cyhoedd mewn meddygon.

Er bod rheoleiddio'r proffesiwn meddygol wedi'i gadw i San Steffan, mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gweithredu o fewn strwythurau cyfreithiol a deddfwriaethol yr awdurdodaethau gwahanol o fewn y DU. Mae gennym dros 300,000 o gofrestreion trwyddedig, gyda thua 12,000 wedi'u lleoli yng Nghymru ac rydym yn cael ein cyllido gan ffioedd cadw blynyddol (ARF) wedi'u talu gan ein meddygon cofrestredig.

Ni yw'r unig reoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol ledled y DU sydd â thîm pwrpasol yn gweithio o swyddfa wedi'i lleoli yng Nghymru, sy'n cydnabod ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth wedi'i deilwra ac yn benodol i'r wlad i gleifion a'r cyhoedd. Mae gennym ymrwymiad cryf i ateb anghenion siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sy'n gofyn am ein gwasanaethau. Rydym yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) ac yn adrodd ar hwn yn flynyddol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu bod y safonau yn cynnig eglurder helaethach mewn rhai meysydd, ac yn cytuno y gallai cyflwyno safonau ychwanegol ein helpu i wella ar y gwasanaethau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, fel y drafftwyd, mae meysydd penodol yn y rheoliadau sy'n achosi rhywfaint o bryder ac yn gofyn am eglurhad ychwanegol, yn enwedig lle gallai fod goblygiadau adnoddau arwyddocaol posibl. Heb yr eglurder hwn mae'n eithriadol o anodd i fesur yr effaith y gallai'r safonau gael arnom a'n gallu i gydymffurfio. Ac fel sefydliad diogelwch cleifion, byddem yn awyddus i geisio osgoi creu costau dianghenraid fydd yn golygu'n anochel y byddai'n rhaid i ni ddargyfeirio'n hadnoddau oddi wrth weithgareddau eraill wedi'u cynllunio i ddiogelu cleifion a hyrwyddo diogelwch cleifion yng Nghymru – sy'n ffurfio rhan o'n dyletswydd statudol craidd.

Byddem felly'n croesawu'r cyfle yn fawr iawn i drafod yr ymateb hwn ac yn enwedig y meysydd hynny lle rydym yn ceisio eglurhad ychwanegol i'n galluogi i ddeall y goblygiadau posibl yn well ac i'n cynorthwyo i ateb amcanion y Safonau'n llawn.

Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau darparu gwasanaeth a gynigir yn y rheoliadau?

Mae safonau darparu gwasanaeth yn cyfrif am y mwyafrif (33 o'r 51) o'r safonau a gynigir a byddem yn disgwyl i'r rhain gael yr effaith fwyaf ar y gwaith a wnawn, yn nhermau cost ac adnoddau posibl. Rydym wedi asesu y byddem yn cydymffurfio â nifer fawr o'r safonau a gynigiwyd gan fod y rhain yn adlewyrchu'r hyn a ddarparwn o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n werth pwysleisio ers cyflwyno'n Cynllun Iaith Gymraeg, bod defnydd y gwasanaethau wedi bod yn eithriadol o isel.

Byddem felly'n croesawu'r cyfle i drafod lefel ein cydymffurfiaeth yn fanwl â Llywodraeth Cymru ond dymunwn dynnu sylw at bump prif faes o'r safonau darparu gwasanaeth arfaethedig y teimlwn sy'n gofyn am eglurhad ac ystyriaeth ychwanegol:

1. Ceisiadau Ar-lein

Mae Safon 19 yn nodi os ydym yn "*cynhyrchu ffurflen gais ... ar gael i gofrestrai i'w gynnwys ar y gofrestr sy'n cael ei chynnal gennych chi, mae'n rhaid i chi ei chynhyrchu yn Gymraeg.*" Mae hyn hefyd yn cynnwys "*deunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu, dogfennau, ffurflenni neu ohebiaeth boed wedi'i gynhyrchu hefyd ar gyfer, ar gael i, i'w cwblhau gan neu eu hanfon at unigolion y tu allan i Gymru neu beidio*".

Rydym yn amcangyfrif bod tua 1,100 o ddogfennau perthnasol i geisio am fynediad ar y prif gofrestrau, rhai arbenigol a rhai meddygon teulu neu i ddychwelyd i'r cofrestrau hynny ar ôl dod oddi arnynt yn wirfoddol. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni, taflenni, dalenni ffeithiau a llythyrau, yn ogystal â'r gwedudalennau. (Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw beth sy'n ymwneud â Ffioedd, Ailddilysu, Ceisiadau Bwrdd Proffesiynol ac Asesu Ieithyddol (PLAB) a Cheisiadau Rhyngwladol.)

Mae'n ofynnol gan Ddeddf Feddygol 1983 i feddygon ddangos safon uchel o Saesneg i ymuno â'n cofrestr. Tra bo'r DU yn ddibynnol iawn ar feddygon sydd heb y Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, nid ydym yn cyfieithu unrhyw un o'n ffurflenni cais na dogfennaeth gefnogol i ieithoedd eraill ar hyn o bryd. Hyd yn hyn nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau gan unrhyw un i dderbyn y fath ddeunyddiau yn Gymraeg a byddem yn cwestiynu priodolrwydd a chymesuredd darparu'r holl ffurflenni cais a dogfennaeth gysylltiedig mewn iaith ac eithrio yn Saesneg. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â'r safon arfaethedig, byddem yn ei hystyried yn gymesur i ddarparu fersiynau Cymraeg o ddwy brif ffurflen gais y DU (ffurflenni cais UK1 a UK2 y Cyngor Meddygol Cyffredinol) i raddedigion meddygol y DU ar gais.

Mae Safon 21 yn nodi pan y cyhoeddwn ddogfennau a ffurflenni yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg, rydym yn gwneud hynny er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn darparu'r cyfleuster i feddygon ryngweithio â ni yn ddigidol trwy ddefnydd porth ar-lein wedi'i ddiogelu gan gyfrinair o'r enw GMC Online, mae'r system hon yn cael ei defnyddio gan feddygon yn unig ac ymhlith pethau eraill mae'n darparu'r ymarferoldeb i feddyg ymgeisio am gofrestrriad ar-lein. Pe byddai angen i'r broses ymgeisio ar-lein hon gydymffurfio â'r safon hwn, byddai hyn yn gofyn am ddatblygiad arwyddocaol a chostau cynnal parhaus.

Mae'n aneglur o'r safon fel y'i drafftwyd ai bwriad Llywodraeth Cymru yw cynnwys systemau cofrestru ar-lein o fewn cylch gorchwyl y safon ac felly byddem yn croesawu eglurhad ychwanegol. Pe byddai'r fath systemau yn cael eu cynnwys yn y safon, byddem yn cwestiynu a fyddai gwneud hynny'n gymesur o ystyried costau datblygu arwyddocaol a chynnal parhaus ynghlwm wrth garfan fach iawn o rai sy'n cofrestru.

2. 'Unigolyn' a 'Chofrestrai'

Mae dogfen yr Ymgynghoriad yn datgan bod y ffocws yn y rhan fwyaf o'r safonau ar sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn gallu defnyddio Cymraeg wrth ddelio â chyrff. Mae pob un o'r safonau yn egluro pwy sy'n gallu ceisio gwasanaeth iaith Gymraeg, boed yn 'unigolyn', 'person' neu 'gofrestrai'. Er ein bod yn croesawu'r eglurder mae'r safonau newydd hyn yn eu darparu, rydym yn gweld gwahaniaeth rhwng y diffiniadau hyn a sut rydym wedi diffinio ein cynulleidfa yn ein Cynllun ein hun. Y diffiniad o 'unigolyn' yw ein prif bryder ac yn enwedig cynnwys myfyrwyr meddygol o fewn y diffiniad hwn.

Rydym yn ystyried myfyrwyr meddygol fel aelodau'r proffesiwn yn y dyfodol, yn eithaf gwahanol i aelodau'r cyhoedd. Mae'n gwasanaethau iaith Gymraeg yn cwmpasu "cleifion a'r cyhoedd", felly nid yw'r rhai sydd wedi cofrestru, y rheiny sy'n ymgeisio i gofrestru na myfyrwyr meddygol yn cael eu cyfieithu na'u cadw yn Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cyfieithu rhai dogfennau lle mae budd cyhoeddus clir. Er enghraifft, mae'n prif ddogfennau cyfarwyddyd i feddygon, fel Ymarfer Meddygol Da, yn cael eu cyfieithu i Gymraeg.

Byddai cynnwys myfyrwyr meddygol o fewn y diffiniad o 'unigolion' yn cael effaith ar gyfarfodydd a gynhaliwn â myfyrwyr meddygol (Safonau 8 – 15), anfon swmp o e-byst at fyfyrwyr (Safon 2) a phob cyfarwyddyd a dogfennau a fyddai neu a allai fod yn berthnasol iddynt (Safon 20). Rydym yn credu felly y byddai cynnwys myfyrwyr meddygol o dan ddiffiniad 'unigolyn' nid yn unig yn anghymesur yn nhermau cost, ond byddai'n anghyson hefyd â sut maen nhw'n cael eu gweld yn y proffesiwn meddygol a sut yr ydym yn rhyngweithio â hwy.

Gan ein bod yn ystyried y rhan fwyaf o'n cyswllt â myfyrwyr meddygol yn nhermau aelodau'r proffesiwn yn y dyfodol ac nid o reidrwydd mewn perthynas â'u materion personol, byddem yn croesawu i Lywodraeth Cymru ystyried priodolrwydd cynnwys myfyrwyr meddygol yn y diffiniad ar hyn o bryd o 'unigolion' ymhellach .

3. Cyfathrebiadau Rhithiol

Yng ngoleuni'r pandemig Coronafeirws a symudiad at ffyrdd mwy rhithiol o weithio, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch y disgwyliadau am ddarparu'r iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd rhithiol. Er nad yw'r cyfarfodydd hyn o bosibl yn cael eu cynnal yng Nghymru, gallent gynnwys cyfranogwyr yn ymuno o Gymru. Nid ydym yn ystyried darparu cyfieithu ar y pryd ar hyn o bryd ar gyfer cyfarfodydd rhithiol wedi'u hwyluso yn Lloegr i fod yn gymesur.

Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ychwanegol ynglŷn â Safon 28 a chyfryngau cymdeithasol. Mae'n aneglur ar hyn o bryd beth fyddai'r disgwyliad ynghylch y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ac felly nid ydym yn gallu ystyried goblygiadau'r safon hwn yn llawn.

4. Diogelwch Cleifion

Ein prif rôl, fel yr amlinellir yn Neddf Feddygol 1983, yw diogelu'r cyhoedd a hyrwyddo a chynnal hyder cyhoeddus yn y proffesiwn meddygol. Rydym yn ceisio lliniaru unrhyw risgiau a allai gyfaddawdu'r cyfrifoldeb statudol hwn.

Rydym wedi nodi y gallai rhai safonau, fel Safon 4, beryglu diogelwch cleifion yn anfwriadol. Hoffem gael sicrwydd, lle rydym wedi nodi'r risg hon, y bydd darpariaethau yn cael eu cynnwys ar gyfer gwrthodiad diffyg cydymffurfio. Er enghraifft, yn achos Tribiwnlys Gorchmynion Interim, sy'n penderfynu lle mae angen i ymarfer meddyg gael ei gyfyngu, pe byddai anfon y gwahoddiad yn Gymraeg yn arafu'r broses, yna rydym yn credu er mwyn diogelu cleifion y dylai'r llythyr gael ei anfon yn Saesneg yn unig. Tra nad yw hyn yn cydymffurfio â'r safon fel y'i drafftwyd, mae'n rhaid i lliniaru'r risg i ddiogelwch cleifion fod yn flaenoriaeth i ni.

5. Achosion Cyfreithiol

Mewn perthynas â Safon 23A a chyfieithu'n gwrandawiadau yn fyw, rydym yn credu bod hyn yn anghymesur mewn perthynas â'r costau a'r oediadau posibl cysylltiedig. Byddai cyfieithu achosion cyfan yn gwneud gwrandawiadau yn arwyddocaol hwy, ac o ganlyniad yn cael effaith ar bryd y gallent gael eu rhestru, a'r adnoddau gofynnol.

Gan fod ein holl wrandawiadau yn cael eu cynnal yn Lloegr, mae pryder y bydd gallu gweithwyr cofrestredig i gael gwrandawiadau Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol wedi'u cynnal yn Gymraeg yn creu annhegwch ymddangosiadol i gofresreion eraill sydd â ieithoedd cyntaf eraill. Rydym wedi gwrthod ceisiadau gan ymarferwyr i gyfieithu gwrandawiadau i'w hiaith gyntaf er mwyn iddynt allu dilyn y gweithrediadau yn haws ar y sail fod disgwyl iddynt fod yn rhugl yn yr iaith Saesneg.¹ Tra'n bod yn gwerthfawrogi bod y safonau arfaethedig yn anelu at greu cydraddoldeb rhwng yr ieithoedd Saesneg a Chymraeg (yn hytrach na mynd i'r afael ag unrhyw anhawster â defnyddio Saesneg), gall ymddangos ein bod yn trin gweithwyr cofrestredig Cymreig yn fwy ffariol yn hyn o beth ac yn bod yn anghyson yn ein penderfyniad ar ddefnyddio Saesneg yn ystod gwrandawiadau Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol.

Mewn perthynas â Safonau 24, 24A a 25 ynghylch cyfieithu dogfennau a ffurflenni, pe byddai'r safonau hyn yn cael eu cymhwyso i bob dogfen sy'n cael eu cynhyrchu gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn nhermau cael eu cyflwyno i'r tribiwnlys a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn dibynnu arnynt, mae hyn yn debygol o greu cost arwyddocaol ac o arwain at oedi arwyddocaol oherwydd y ffaith fod bwndeli'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer gwrandawriad yn gallu rhedeg mewn rhai achosion i filoedd o dudalennau.

Byddai cyfieithu'r dogfennau a gynhyrchwn yn gorfforol ein hunain yn unig (e.e. cyhuddiadau Rheol 15, datganiadau tystion, mynegeion bwndeli) yn llai costus, ond gallai'r oedi i baratoad achos fod yn arwyddocaol o hyd gan ddibynnu ar swm tystiolaeth tystion. Ymhellach, mae'n anodd gweld sut na allai dogfennau a dderbynnir yn Gymraeg gael eu trin yn llai ffariol yn nhermau amserlenni o ystyried y byddem yn dibynnu ar wasanaethau cyfieithu allanol.

Byddem yn croesawu trafodaeth ychwanegol â Llywodraeth Cymru ynglŷn â bwriadau'r safonau hyn ac felly gymesuredd y safonau arfaethedig hyn.

Cwestiwn 2: Mae Rhan 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn cynnwys dehongliadau ar gyfer rhai o'r safonau Darparu Gwasanaeth. Mae paragraffau 16-37 yn esbonio sut mae rhai o'r safonau'n gweithio ac ym mha amgylchiadau maen nhw'n gymwys.

¹ Mae Deddf Feddygol 1983 yn darparu y bydd addasrwydd cofrestrai i ymarfer yn cael ei ystyried yn ddiffygiol os nad oes ganddynt y wybodaeth angenrheidiol o Saesneg.

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ddehongli safonau fel yr amlinellir yn Rhan 3?

Rydym yn croesawu Rhan 3 o Atodlen 1 ac yn canfod ei fod yn darparu eglurhad sydd o gymorth yn ogystal â gwybodaeth ymarferol y bydd ei hangen arnom i fod yn ymwybodol ohoni yn ein cydymffurfiaeth â safonau penodol.

Byddem yn hoffi ceisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y cam hwn ar beth sy'n cael ei ystyried yn 'hysbysiad swyddogol'. Heb yr eglurhad hwn nid ydym yn gallu adnabod yn hawdd beth rydym yn ei gynhyrchu a allai syrthio i'r categori hwn ac felly asesu ei effaith.

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau llunio polisi sy'n cael eu cynnig yn y rheoliadau?

Mae gan ein Cynllun presennol ddarpariaeth i ystyried anghenion iaith Gymraeg wrth ddatblygu a gweithredu polisiâu'r dyfodol. Mae'n datgan y byddwn yn sicrhau na fydd unrhyw bolisi neu gynllun newydd yn tanseilio'r Cynllun Iaith Gymraeg ac y byddwn yn cymryd pob cyfle i weithredu egwyddorion cydraddoldeb llawn lle bynnag mae'r cyfle yn cyflwyno'i hun.

Rydym wedi parhau i wella'n hymarfer presennol i sicrhau bod ein prosesau yn dal anghenion iaith Gymraeg y bobl hynny a allai gael eu heffeithio gan ein penderfyniadau polisi. Rydym wedi datblygu fframwaith polisi ledled y Cyngor Meddygol Cyffredinol sy'n amlinellu ymagwedd ymarfer da at ddatblygu polisi ledled y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cam ar 'sicrhau eich bod yn deall gofynion ein cynllun iaith Gymraeg' sy'n cynnwys dolen at ein cyfarwyddyd iaith Gymraeg. Mae disgwyl i holl reolwyr polisi'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ystyried hyn ar yr adeg berthnasol yn ystod datblygu polisi a datgan a oedd angen iddynt wneud darpariaeth neu beidio.

Byddem yn croesawu ymgynghori ychwanegol â Llywodraeth Cymru ynglŷn a sut mae'r safonau polisi yn ceisio diffinio ein rôl mewn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Byddai hyn yn wyriad oddi wrth ein Cynllun presennol, sy'n trin yr ieithoedd Saesneg a Chymraeg ar sail cydraddoldeb. Mae natur llawer o'n polisiâu yn ymwneud â materion ledled y DU gan fod gennym gyfrifoldebau statudol ledled y DU. Gallai rhai o'r safonau hyn felly fod yn amhriodol.

Hoffem hefyd gael eglurhad ynglŷn â pha bolisiau y bwriedir iddynt gael eu cwmpasu o dan y safonau, fel preifatrwydd, polisiâu cwcis, a pholisiau cyfryngau cymdeithasol. Heb yr eglurhad hwn nid ydym yn gallu asesu effaith bosibl y safonau hyn yn gywir.

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau gweithredol a

gynigir yn y rheoliadau?

Mae'r safonau gweithredol fel y cânt eu cynnig yn y rheoliadau yn darparu ar gyfer defnydd yr iaith Gymraeg gan y sefydliad yn fewnol. Mae dogfen yr ymgynghoriad yn cydnabod mai ychydig iawn o staff sy'n gweithio o fewn cyrff rheoleiddio gofal iechyd sy'n siarad Cymraeg.

Pan hysbysebwn am swyddi yng Nghymru rydym yn gwneud hynny'n ddwyieithog ac yn nodi bod gwybodaeth o'r Gymraeg yn ddymunol. Oni bai yn angenrheidiol ar gyfer y swydd, ni fyddem yn ystyried estyn hyn i bob swydd ledled y CYngor Meddygol Cyffredinol ac felly ni fyddem yn gwbl gydymffurfio â Safon 45. Rydym ar hyn o bryd yn cydymffurfio â Safon 45A, ac rydym o'r farn fod hyn yn ymateb cymesur gan y bydd ein holl swyddi yng Nghymru yn nodi'r lefel o iaith Gymraeg sydd ei hangen ac mae disgrifiadau'r swyddi a hysbysebion hefyd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Rydym yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn ein cyflwyniad Corfforaethol ac yn ddiweddarach yn y modiwl hyfforddiant newydd, *Treating People Fairly*, felly rydym yn rhannol gydymffurfio â Safon 43 ac yn gwbl gydymffurfio â Safon 44. Fe wnaethom drefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ar gyfer tîm Cymru a'r rheiny a gafodd ymwneud uniongyrchol â'r Cynllun a'r ymgynghoriad (cafodd hyn ei ohirio oherwydd y pandemig) a bwriadwn ddarparu cyrsiau gloywi rheolaidd a'u darparu i dimau eraill ledled y DU ar gais.

Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar safonau cadw cofnodion a safonau sy'n delio â materion atodol sy'n cael eu cynnig yn y rheoliadau?

Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi dileu sawl un o'r safonau yn y categori hwn a gynigiwyd yn 2016 er mwyn lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n cael ei gosod arnom. Rydym yn teimlo bod y safonau arfaethedig ar gadw cofnodion a materion atodol oll yn gymesur. Ar hyn o bryd rydym yn cofnodi pob cynw gyffredinol a dderbyniwn, ond hyd yn hyn nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am ein Cynllun Iaith Gymraeg. Rydym yn bwriadu gweithio gyda'n tîm cynwion corfforaethol i wella'n hymdriniaeth â chwynion posibl i'r dyfodol ynglŷn â Safonau'r Iaith Gymraeg, i'n galluogi i ateb gofynion Safon 46 yn well.

Byddwn yn gallu cydymffurfio â Safon 48, sy'n datgan bod rhaid i ni sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau rydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar ein gwefan. Byddwn yn cyhoeddi'r Hysbysiad Cydymffurfio oddi wrth Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

Byddwn yn gallu cydymffurfio â Safonau 50 a 51 ynglŷn â chynhyrchu adroddiad blynyddol ar ein

cydymffurfiaeth â'r safonau a darparu gwybodaeth i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. sy'n berthynol i'n cydymffurfiaeth â'r safonau darparu gwasanaeth, y safonau gwneud polisiau neu'r safonau gweithredol rydym o dan ddylestwydd i gydymffurfio â hwy.

Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn beodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio Cymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut allai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol eu lliniaru?

Mae'n anodd mesur yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg a chyfleoedd i bobl ddefnyddio Cymraeg. Hyd yn oed gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg presennol ar waith, rydym yn derbyn ychydig iawn o ohebiaeth gan unigolion, cofrestreion neu bersonau am ein gwasanaethau iaith Gymraeg. Er enghraifft, rydym yn cynhyrchu'n holl ddogfennau ymgynghori yn Gymraeg ac eto i gyd wedi derbyn dim ond un ymateb yn Gymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Lle'n briodol byddai angen i ni sicrhau bod y Cyngor Medygol Cyffredinol yn gallu cefnogi unrhyw anghenion Iaith Gymraeg cynyddol, a'n bod yn gallu asesu'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y sefydliad ehangach yn llawn, yn enwedig yn nhermau cost, adnoddau, amser a chymesuredd. Byddem yn ymrwymedig i fonitro'n cynnydd a nodi cyfleoedd yn ogystal a lliniaru unrhyw risgiau. Rydym yn awyddus i ddatblygu perthynas dda â Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg i sicrhau ein bod yn cydymffurfio ac yn gallu galw am gymorth ei swyddfa yn ôl yr angen.

Cwestiwn 7: Esboniwch hefyd sut y credwch y gallai'r rheoliadau gael eu ffurfio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, a dim effeithiau anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Dim ymateb.

Cwestiwn 8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthynol nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:

Dim ymateb

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw,

ticiwch yma:

